Cronfa Adeiladu Capasiti mewn cymunedau Arfordirol 2025-2027 Rownd 2

Cyflwynwyd Cronfa Adeiladu Capasiti Arfordirol yn 2023 ac mae'n gronfa arloesol i gefnogi Adeiladu Capasiti Arfordirol yng Nghymru. Mae'r gronfa'n cefnogi prosiectau i wella cyfalaf cymdeithasol, galluogi buddsoddiad ar lawr gwlad i gymunedau arfordirol, cyflawni amcanion pysgodfeydd o'r dull strategol Pysgodfeydd a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd morol a'r heriau/pwysau y mae'n eu hwynebu.

Nod y gronfa
Diben y gronfa hwn yw adeiladu capasiti rhanddeiliaid mewn cymunedau arfordirol. Mae'r gronfa wedi'i ddylunio i wella cynaliadwyedd a gwydnwch cymunedau arfordirol drwy hwyluso camau gweithredu i alluogi adferiad natur, canolbwyntio ar amcanion y dull strategol o fynd i'r afael â physgodfeydd a hybu twf ac arallgyfeirio cynaliadwy. Mae'r gronfa hon yn galluogi ymgeiswyr i adeiladu ar drefniadau cydweithio presennol ac i ymhél â chymunedau, busnesau a sefydliadau fel awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gefnogi dulliau o ymdrin â phartneriaethau yn y dyfodol.

Bydd y gronfa hefyd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng cymunedau arfordirol lleol, y sector pysgodfeydd a natur, a fydd yn helpu pobl i ddeall y camau gweithredu y gallant eu cymryd i wneud gwahaniaeth. Bydd yn sicrhau bod gennym y capasiti, y sgiliau a'r dystiolaeth i gefnogi darpariaeth y dyfodol. Y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yw rhwydwaith o fudiadau ac unigolion o gymunedau arfordirol sy'n rhannu'r un diddordeb o gael amgylchedd naturiol ffyniannus a chymunedau lleol llewyrchus ac sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni mwy i gymunedau lleol na ellid ei gyflawni'n unigol. At ddibenion y gronfa hwn, mae adeiladu capasiti mewn cymunedau arfordirol yn golygu 'lluosogi sgiliau, gwybodaeth a buddsoddiad i wella'r defnydd cynaliadwy o adnoddau lleol mewn cymunedau arfordirol'.

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?
Bydd y Gronfa yn cael ei dosbarthu trwy Bartneriaethau Natur Lleol (LNP). Gwahoddir ceisiadau am gyllid gan amrediad o ffynonellau sy'n chwarae rhan allweddol mewn hwyluso datblygiad economaidd a chymdeithasol a diogelwch amgylcheddol ar lefel leol a gyflwynir drwy'r Cydgysylltydd LNP. Gwahoddir ac anogir prosiectau sy'n cydweithio ag aelodau presennol, partneriaid newydd a'r sector pysgodfeydd. Bydd angen i gais cydweithredol neu bartneriaeth gael prif ymgeisydd a bydd disgwyl i hwnnw groesawu'r Cydgysylltydd LNP. Gallai'r gronfa fod o ddiddordeb arbennig i awdurdodau porthladdoedd a harbwr, awdurdodau lleol a busnesau neu sefydliadau sydd â chysylltiadau â physgota, dyframaethu a sectorau cymunedol o amgylch arfordir Cymru.

Pa fath o brosiectau sy'n gymwys?
Mae'r Gronfa yn dilyn canllawiau presennol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Rhaid i bob prosiect ganolbwyntio ar nodau adfer natur a thwf cynaliadwy:

- Adfer a gwella byd natur
- Twf ac arallgyfeirio cynaliadwy mewn cymunedau arfordirol yng Nghymru
- Hwyluso cymunedau arfordirol Cymru i gael y cyllid grant a chyllid arall priodol drwy roi cyngor a chymorth a datblygu rhwydwaith o randdeiliaid allweddol er mwyn rhannu gwybodaeth am bynciau morol ac arfordirol.

Bydd angen i bob prosiect fodloni un neu ragor o amcanion pysgodfeydd allweddol Deddf Pysgodfeydd 2020 ac un neu ragor o amcanion Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:

Dyma'r amcanion pysgodfeydd yn Neddf Pysgodfeydd 2020 (y cyfeirir atynt yn y dull strategol):-

i. Yr amcan cynaliadwyedd,
ii. Yr amcan rhagofalus,

iii. Yr amcan ecosystem,
iv. Yr amcan tystiolaeth wyddonol,
v. Yr amcan sgil-ddalfa,
vi. Yr amcan mynediad cyfartal,
vii. Yr amcan budd cenedlaethol, a'r
viii. Amcan newid hinsawdd.

Yr "**amcan cynaliadwyedd**" yw bod:-

i. pysgod a gweithgareddau dyframaeth yn gynaliadwy yn economaidd yn yr hirdymor
ii. pysgod a gweithgareddau dyframaeth yn cael eu rheoli mewn modd sy'n cyflawni buddion economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth ac sy'n cyfrannu at gaffaeledd cyflenwadau bwyd
iii. capasiti pysgota fflydoedd yn sicrhau bod fflydoedd yn economaidd hyfyw, heb orecsbloetio stoc y môr.

Yr "**amcan rhagofalus**" yw bod:-

i. y dull rhagofalus o reoli pysgodfeydd yn cael ei ddilyn
ii. ecsbloetiaeth o stoc y môr yn adfer a chynnal poblogaethau o rywogaethau a gynaeafwyd uwchlaw'r lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r mwyafswm o stoc gynaliadwy.

Yr "**amcan ecosystem**" yw bod:-

i. pysgod a gweithgareddau dyframaeth yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar yr ecosystem er mwyn sicrhau bod eu heffeithiau negyddol ar ecosystemau'r môr yn cael eu lliniaru a, lle'n bosibl, eu troi'n rhai positif
ii. llai o rywogaethau sensitif yn cael eu dal yn ddamweiniol ac, o bosibl, dim.

Yr "**amcan tystiolaeth wyddonol**" yw bod:-

i. data gwyddonol sy'n berthnasol i reoli pysgod a gweithgareddau dyframaeth yn cael ei gasglu
ii. awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gasglu a rhannu data gwyddonol o'r fath
iii. y ffordd y rheolir pysgod a gweithgareddau dyframaeth yn seiliedig ar y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Yr "**amcan sgil-ddalfa**" yw bod:-

i. dal pysgod sy'n llai na'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf, a sgil-ddalfeydd eraill, yn cael ei osgoi neu ei leihau
ii. y pethau sy'n cael eu dal yn cael eu cofnodi a'u cyfrif
iii. sgil-ddalfa sy'n bysgod yn dod i'r lan, ond dim ond pan fydd hyn yn briodol ac (yn benodol) lle na fydd yn creu cymhelliad i ddal pysgod sy'n llai na'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf.

Yr "**amcan mynediad cyfartal**" yw sicrhau nad yw mynediad cychod pysgota yn y DU o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain yn cael ei effeithio gan:-

i. leoliad porthladd cartref y cwch pysgota
ii. unrhyw gysylltiad sydd gan y cwch pysgota, neu unrhyw un o'i berchnogion, ag unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

Yr "**amcan budd cenedlaethol**" yw bod gweithgareddau pysgota cychod pysgota'r DU yn cyflwyno buddion economaidd i'r Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

Yr "**amcan newid hinsawdd**" yw bod:-

i. effaith niweidiol pysgod a gweithgareddau dyframaeth ar y newid yn yr hinsawdd yn cael ei lliniaru
ii. pysgod a gweithgareddau dyframaeth yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Amcanion Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:

- Cefnogi gweithgareddau a chamau gweithredu sy'n adfer a gwella byd natur
- Canolbwyntio ar gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau difreintiedig ledled Cymru
- Annog cymunedau i gymryd rhan ac ymgysylltu er mwyn galluogi pobl i brofi a gwerthfawrogi natur, a fydd yn helpu i arwain at fentrau ehangach a mwy o faint a gefnogir ar draws cymunedau.

Dyma'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y gronfa:

Allbwn
Asedau cyfalaf a grëwyd (nifer)
Asedau cymunedol a grëwyd (nifer)
Nifer y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd i gynyddu'r gefnogaeth dros fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd
Nifer y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd, gan gynnwys cydweithio â rhanddeiliaid allweddol, i gyfrannu at y gwaith o reoli'r amgylchedd morol yn well
Nifer y digwyddiadau sydd wedi'u cynnal i gefnogi a hybu prosiectau carbon glas
Nifer y digwyddiadau sydd wedi'u cynnal i gynyddu'r capasiti ar gyfer cyfleoedd dyframaeth, twristiaeth a hamdden cynaliadwy
Nifer y digwyddiadau sydd wedi'u cynnal i gynyddu'r cyfleoedd i gadwynau cyflenwi bwyd môr lleol
Nifer y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd tuag at fodloni'r amcan/amcanion Pysgodfeydd a ddewiswyd wrth ymgeisio
Unrhyw gyflawniadau allweddol eraill na nodwyd uchod

Faint o gyllid gellir gwneud cais amdano?
Mae £478,500 o gyllideb ar gael. Rhaid i brosiectau fod yn o leiaf £20,000 a rhaid cyflawni a hawlio pob prosiect erbyn 31 Mawrth 2027. Mae gan y gyllideb raniad tybiannol o £385,000 o gyfalaf a £93,500 o refeniw.

Pa fath o weithgareddau gellir eu cyllido?
Mae hwn yn rownd ariannu grant cyfalaf yn bennaf ac mae'n darparu capasiti i adeiladu ar gydweithrediadau newydd a phresennol, ymgysylltu â chymunedau, busnesau a sefydliadau fel awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill, i gefnogi dulliau partneriaeth yn y dyfodol a rhaid i bob cais gynnwys elfen gyfalaf i fod yn gymwys. Rhaid glynu wrth y gweithgareddau cymwys safonol ar gyfer cyllid refeniw megis costau staff, llety, nwyddau traul, offer ac eitemau TG sydd eu hangen yn uniongyrchol i ymgymryd â gweithgareddau, llogi lleoliadau, arlwyo, cyhoeddusrwydd, cyfathrebu, ymchwil, gwasanaethau proffesiynol, dichonoldeb, astudiaethau ac adroddiadau economaidd, amgylcheddol ac astudiaethau technegol eraill.

Gall gwariant cymwys gynnwys gweithrediad contract gwaith cyfalaf, gwasanaethau mewnol (e.e. gwasanaethau proffesiynol), gwaith amgylcheddol, triniaethau arbenigol, darpariaeth diogelwch ac arwyddion, gan gynnwys cydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru at y prosiect.

Mae prynu cyfarpar yn gymwys cyhyd â bod ei angen i gyflawni'r prosiect.

Yn achos cyfarpar y gellir ei symud, rhaid cael sicrwydd y bydd y cyfarpar dim ond yn cael ei ddefnyddio at ddefnydd amcanion y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, a chael rhesymeg dros y sylfaen gost.

Os oes angen caniatâd cynllunio ar eich buddsoddiad, rhaid i chi gael unrhyw ganiatadau cynllunio angenrheidiol a chadw at unrhyw ofynion statudol perthnasol eraill. Bydd angen i ymgeiswyr hefyd wirio nad yw eu cynigion yn torri unrhyw is-ddeddfau, yn rhwystro unrhyw hawliau tramwy ac ati a rhaid osgoi difrodi'r amgylchedd neu achosi llygredd.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall na fydd ymgeiswyr, mewn rhai achosion, yn gallu cael y rhain yn eu lle wrth wneud cais, felly mewn achosion o'r fath, bydd ceisiadau yn cael eu derbyn cyn cael y rhain yn eu lle. Fodd bynnag, bydd angen i'r cytundebau hyn gael eu nodi'n fanwl o fewn y cais a bydd angen eu cael cyn i'r prosiect ddechrau. Gallai methu â chael y trwyddedau a/neu'r cytundebau hyn yn eu lle olygu y bydd y Dyfarniad Grant yn cael ei dynnu'n ôl.

Ni fydd unrhyw grant yn cael ei dalu tan fydd y dogfennau cymeradwyo trwydded a/neu gytundeb gwreiddiol wedi'u derbyn a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru neu os bydd yr awdurdod cynllunio yn pennu nad oes angen caniatâd cynllunio ar y prosiect, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau y gallai'r gronfa adeiladu capasiti arfordirol eu cefnogi:

- Cyflawni amcanion y pysgodfeydd, fel yr amlinellwyd yn y dull strategol ar gyfer mynd i'r afael â physgodfeydd
- Datblygu/adeiladu ar brosiectau presennol er mwyn mynd i'r afael â chynnwys eitemau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth ac yn cynyddu buddion y prosiect
- Gwella cyfleusterau porthladdoedd a harbwrs er budd y defnyddiwr terfynol a'r gymuned
- Gwella iechyd a diogelwch mewn pysgota, dyframaethu ac ardaloedd cymunedol arfordirol
- Cynyddu dulliau cydweithredol sy'n cefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a'r hinsawdd
- Gwella rheolaeth yr amgylchedd morol
- Atafaelu "carbon glas", fel dal ac adfer carbon o wymon
- Datblygu dyframaeth gynaliadwy
- Datblygu twristiaeth a hamdden gynaliadwy
- Datblygu cadwynau cyflenwi bwyd môr lleol
- Gwella sgiliau, gwybodaeth a rhwydweithiau er mwyn ymhél â phroblemau morol ac arfordirol.

Prynu cyfarpar

- Mae prynu cyfarpar yn gymwys cyhyd â bod ei angen i gyflawni'r prosiect
- Yn achos cyfarpar y gellir ei symud, rhaid cael sicrwydd y bydd y cyfarpar dim ond yn cael ei ddefnyddio at ddefnydd amcanion y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, a chael rhesymeg dros y sylfaen gost
- Rhaid i ymgeiswyr trydydd parti sicrhau bod cyfarpar a brynir gyda chyllid Llywodraeth Cymru, boed yn eiddo i'r ymgeiswyr trydydd parti neu'n eiddo i drydydd parti, yn cael ei ddiogelu'n

briodol. Rhaid i'r cyfarpar gael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd am o leiaf pum mlynedd ar ôl cael cyllid.

Rhaid caffael yr holl gyfarpar mewn modd priodol

- Mewn achosion lle caiff cyfarpar ei brynu gyda chyllid Llywodraeth Cymru, rhaid i dderbynyddion gadw rhestr o'r cyfarpar at ddibenion archwilio. Dylai'r rhestr gynnwys o leiaf y pethau canlynol: enw'r eitem, rhif y model, rhif cyfresol, pris prynu, dyddiad prynu a lleoliad yr eitem a brynwyd.

Gwariant Cyfalaf Anghymwys

Nid yw'r costau canlynol yn gymwys am gymorth. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bydd yn cael ei mireinio o bryd i'w gilydd:

- Unrhyw gyfarpar a geir o dan gytundeb hurbwrcasu neu les
- Eitemau sydd eu hangen i fodloni safonau rheoleiddio
- Gweithgareddau sydd y tu allan i amserlen gyllido'r grant
- Costau gweithredu (busnes nid prosiect)
- TAW y gellir ei had-hawlio (busnes nid prosiect)
- Prynu stoc masnachu
- Costau sy'n gysylltiedig â llenwi ffurflenni cais y Cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, gan gynnwys talu ymgynghorwyr am eu help i lenwi'r ffurflenni cais
- Newid peiriannau a chyfarpar presennol tebyg am debyg
- Costau staff craidd
- Llog ar ddyled
- Ffioedd banc ar gyfrifon
- Costau gwarantau a ddarperir gan fanc neu sefydliad ariannol arall
- Ffioedd ar gyfer trafodiadau ariannol, comisiynau a cholledion cyfnewidfa dramor a threuliau cwbl ariannol eraill
- Costau benthyciadau
- Llog neu gostau gwasanaeth – sy'n codi ar drefniadau les a hurbwrcas;
- Costau o ganlyniad i ohirio talu credydwyr
- Costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni i ben
- Dyledion gwael o ganlyniad i fenthyg arian i gyflogeion, perchnogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr neu randdeiliaid
- Dirwyon, cosbau ariannol a threuliau ymgyfreitha
- Costau staff na ellir eu cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni'r prosiect
- Hyfforddiant sy'n orfodol o dan ddarpariaeth statudol
- Taliadau am anrhegion neu roddion
- Costau adloniant
- Trwsio a chynnal a chadw asedau presennol
- Costau annibynnol am waith sy'n cael ei wneud fel gofyniad statudol
- Costau tybiannol
- Taliadau am weithgarwch sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwleidyddiaeth
- Difidendau i randdeiliaid
- Costau i unigolion yn sgil dechrau a chyfrannu at gynlluniau pensiwn preifat, neu unrhyw gynlluniau o'r fath a ddechreuir gan fudiadau sy'n derbyn cyllid strwythurol
- Taliadau ar gyfer pensiynau na gyllidwyd; a
- Disgowntiau.

Bydd costau dim ond yn gymwys am gymorth grant pan fydd y gost wedi'i thalu'n gywir gan y sawl sy'n hawlio cyn cyflwyno'r hawliad.

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi gyflwyno dadansoddiad o gostau cyfalaf a refeniw eich prosiect.

Cydymffurfio
Dyma rai o'r gofynion statudol:

- Caniatadau statudol: Rhaid cael caniatadau a thystiolaeth o'r caniatadau hyn.
- Caffael: Dylid caffael yn unol â pholisïau a gweithdrefnau caffael safonol y mudiad.
- Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022: Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn fod y cyllid hwn yn Gymhorthdal. I gael ei ystyried yn gymhorthdal, rhaid pasio profion a rhaid bod y rheoliadau Cymhorthdal yn gymwys:
- Mae'r gweithgaredd a gyllidir yn cynnwys cynnig nwyddau neu wasanaethau ar farchnad;
- Mae'r cyllid yn rhoi budd i un neu ragor o fentrau. Gall hefyd gynnig telerau a/neu amodau na fyddent yn gallu eu cael gan y farchnad, h.y. maen nhw'n cael budd. Mae'r cyllid yn benodol i gymorth. Mae dim ond yn cael ei gynnig i dderbynyddion penodol neu mewn lleoliadau penodol. Os yw'n gwahaniaethu rhwng mentrau ar sail maint / lleoliad / gweithgaredd ac ati, mae siŵr o fod yn benodol. Mae gan y cymorth y potensial i effeithio ar:
    1. Gystadleuaeth neu fuddsoddiad yn y DU.
    2. Masnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU.

Cynnal: Bydd angen i dderbynyddion gyflwyno cynllun cynnal pum mlynedd i ddangos sut bydd y prosiect yn cael ei gynnal mewn blynyddoedd i ddod. Dylid ystyried gofynion cyfalaf ar gyfer camau datblygu ychwanegol os oes angen.

GDPR: Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth gyfreithiol i brosesu data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth, yn bennaf, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Rhaid i chi hefyd brosesu data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth, yn bennaf, Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Y Gymraeg: Disgwylir i chi weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a nodau Cymraeg 2050. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir, gan gynnwys deunydd digidol, yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod unrhyw arwyddion yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- Mynd ati i hybu a hwyluso'r Gymraeg (gan gynnwys darparu gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg) o fewn gweithgareddau a gyllidir.

I gael eglurhad pellach ar weithgareddau cymwys, cysylltwch ag LNPCymru@wcva.cymru.

Amserlen
Bydd y ffenestr ymgeisio yn **agor ar 23 Mawrth 2026 ac yn cau ar 8 Mai 2026.**

Bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel annibynnol a gydlynir gan CGGC. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu yn **25 Mai 2026 a bydd prosiectau'n dechrau o 25 Mai 2026.**